

Adroddiad Blynyddol Cyngorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cyngorydd GC Haines

Ward: Abercynffig a
Coytrahen

Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cyngorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Abercynffig a Coytrahen ar 7 Mawrth 2024. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni, gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi mynegi nifer o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:

[Cllr Gary Haines](#)

Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned ers fy ethol ym mis Mawrth eleni a byddaf yn parhau i wneud hynny yn ystod fy nhymor etholedig. Mae hyn yn fy ngalluogi i gyfathrebu a bod yn rhan o waith y Cyngor a'i gefnogi.

Yn ogystal, mae'r Cyngorwyr yn codi materion yn eu hardal, ac rwy'n bwrw ymlaen â hyn o fewn y Cyngor Bwrdeistref ac yn adrodd yn ôl ar y cynnydd i'r Cyngor Cymuned.

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol ers fy ethol yn y Ganolfan Gymunedol yn Coytrahen ac yn y Llyfrgell yn Abercynffig, a byddaf yn parhau i wneud hynny yn ystod fy nhymor etholedig.

Rydw i wedi ymweld ag etholwyr i drafod gwahanol faterion sy'n berthnasol iddyn nhw yn eu hardal, ac rwy'n parhau i fod yn agored ac yn barod i gefnogi unrhyw etholwyr sydd angen hynny

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Er mai dim ond yn ddiweddar y cefais fy ethol (ychydig dros 4 mis yn ôl) yr wyf wedi bod yn weithgar iawn yn hyrwyddo anghenion Abercynffig a Coytrahen.

Ddiwedd mis Mai 2024, llwyddais i fynd ar ymweliad safle gydag Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac aelod Cabinet perthnasol ynghyd â 3 Swyddog i edrych ar fynd i'r afael â rhestr hir o eitemau sydd angen sylw yn fy ward.

O ganlyniad, yn Abercynffig, mae gwaith atgyweirio dros dro wedi cael ei wneud ar dyllau yn y ffordd i'r Llyfrgell ac yn y maes parcio cyfagos. Mae'r rhan o'r ffordd i'r llyfrgell sydd wedi'i difrodi bellach ar y rhestr ar gyfer ailwynebu'n llwyr.

Yr wyf yn arbennig o ymwybodol o'r angen brys am groesfannau diogel yn Abercynffig a Coytrahen ac yr wyf yn parhau i weithio'n galed yn y cefndir i alluogi gwaith o'r fath rywbryd yn y dyfodol agos, gobeithio.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rydw i'n crwydro'n rheolaidd ar droed ym mhob rhan o fy ward ac rydw i bob amser yn agored i ymholiadau gan etholwyr ynghylch unrhyw faterion maen nhw'n dymuno eu codi. Mae'r gweithgaredd hwn hefyd yn fy ngalluogi i fod yn ymwybodol iawn o faterion posibl a gwirioneddol y gallai fod angen mynd i'r afael â nhw yn fy ward.

Y Cyngorydd GC Haines

Dyddiad: 29/07/2024